

Mewn argyfwng...

Os bydd eich peiriannau yn dod i gysylltiad â llinell bŵer uwchben neu o fewn pum metr i linell ar y ddaear, arhoswch yn eich cerbyd nes i'r Gwasanaethau Brys neu SP Energy Networks gyrraedd **oni fydd perygl gwirioneddol o dân**.

- **Dywedwch wrth unrhyw un arall i gadw draw** hyd yn oed os ydych yn y caban. Gallai unrhyw un arall sy'n cyffwrdd â'ch cerbyd gael anafiadau angheuol.
- Os yw'n bosibl, defnyddiwch eich ffôn symudol i **ffonio'r Gwasanaethau Brys** neu gofynnwch i rywun arall eu ffonio. Rhowch eich lleoliad iddynt mor gywir ag y bo modd. Dywedwch wrthynt fod llinellau pŵer uwchben yn y lleoliad dan sylw a gofynnwch iddynt gysylltu ag SP Energy Networks.
- Os oes raid i chi adael y cerbyd, **NEIDIWCH YN GLIR ODDI ARNO** yn hytrach na chamu oddi ar y cerbyd. Neidiwch mor bell i ffwrdd ag y gallwch, ceisiwch lanio ar eich traed, yna **RHEDWCH** o leiaf 10 metr i ffwrdd.

Mae'r Gwasanaethau Brys yn gwybod sut i achub pobl ger llinellau uwchben sydd wedi'u difrodi. Bydd Peiriannydd SP Energy Networks yn dweud wrthynt pan fydd y pŵer wedi cael ei ddiffodd ac y gall y gwaith achub fynd yn ei flaen yn ddiogel.

BYDDWCH YN YMWBODOL, CADWCH DRAW

PEIDIWCH BYTH â chyffwrdd â llinellau pŵer uwchben.



Dylech dybio bod llinellau pŵer yn fyw bob amser, hyd yn oed os ydynt wedi disgyn i'r ddaear, wedi torri, neu nad ydynt yn gwreichioni.

Hyd yn oed os yw'r llinellau yn 'farw', gallant fynd yn fyw eto yn ddirybudd. Gall hyn ddirybudd yn awtomatig ar ôl rhai eiliadau, neu gellir eu hailwefru hyd at sawl awr yn ddiweddarach os na fydd SP Energy Networks yn ymwybodol bod y llinell wedi'i difrodi.

Pan fydd llinell ar y ddaear gallech gael eich lladd heb i chi gyffwrdd â hi. Gall y cerrynt deithio cryn bellter ar y ddaear a hyd yn oed yn bellach os bydd y llinell wedi disgyn ar ffens neu wrthynt metelaidd arall.

Cysylltu â ni

Materion Rhwydwaith Cyffredinol yn cynnwys cyngor diogelwch
0845 273 4444

Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch y rhif priodol ar gyfer eich ardal:

Canolbarth Lloegr a De'r Alban
0845 272 7999

Swydd Gaer, Glannau Mersi a Gogledd Cymru
0845 272 2424

Ewch i'n gwefan:
www.spenergynetworks.com

Rhagor o wybodaeth

Mae'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni yn llunio cyfres o daflenni sydd ar gael yn www.energynetworks.org

Mae cyngor cynhwysfawr ar gael oddi wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) drwy www.hsebooks.co.uk neu drwy ffonio **01787 881 165**

Dylid defnyddio'r daflen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Nodyn Cyfarwyddyd GS6 HSE
- 'Avoidance of Danger from Overhead Electric Power Lines'
- Taflen cyfarwyddyd HSE, 'Shock Horror'
- Taflen Gwybodaeth Amaethyddol AIS8 HSE
- Nodyn Cyfarwyddyd AFAG804 HSE
- 'Electricity at Work: Forestry and Arboriculture'.



SP ENERGY NETWORKS

Mae diogelwch yn bwysig...



...wrth weithio ger llinellau pŵer uwchben

Mae'r daflen hon wedi'i hanelu at unrhyw un sy'n gweithio yng nghyffiniau llinellau pŵer uwchben. Ei bwriad yw rhoi gwybodaeth i helpu pobl i fod yn ddiogel.

Mae llinellau pŵer uwchlaw i'w gweld ym mhobman yng nghefn gwlad. Yn aml ni fydd pobl yn sylwi arnynt, ond maent yn hanfodol i ddarparu trydan i ddinasoedd, trefi, pentrefi a chymunedau gwledig. Mae'r llinellau uwchben hyn yn cludo folteddau sy'n amrywio o 230 folt (foltedd domestig) hyd at 400,000 folt. **Gall hyd yn oed foltedd domestig fod yn anghuol, a gall trydan foltedd uchel bontio bylchau mawr.**

Mae tua **pum unigolyn yn marw bob blwyddyn** yn sgil cyswllt damweiniol â llinellau pŵer uwchben. Yn aml gall y defnydd o beiriannau amaethyddol ac adeiladu (fel wagenni codi, dyrnwyr medi a chwistrellwyr pwerus) a chyfarpar (fel ysgolion, sgaffaldiau a phibellau dyfrhau) olygu bod gweithwyr yn mynd yn agos at linellau pŵer uwchben.

Pwyntiau allweddol cyffredinol

- Mae systemau trydanol yn cludo folteddau o hyd at 400,000 folt. Gall hyd yn oed 230 folt (foltedd domestig) fod yn anghuol.
- Ni ddylech dybio bod llinellau neu gyfarpar trydanol yn 'farw', hyd yn oed os ydynt wedi disgyn i'r ddaear neu wedi torri. Gall llinellau wedi'u difrodi fod yn fyw o hyd neu gellir eu hadfywio yn awtomatig neu o bell heb rybudd os na fydd SP Energy Networks yn ymwybodol o'r digwyddiad.
- Gall cyffwrdd â llinellau pŵer trydanol neu wrthrychau/unigolion sy'n cyffwrdd â'r llinellau fod yn anghuol.
- Gall hyd yn oed y llinellau uwchben sydd â'r foltedd isaf gynhyrchu 10,000 gwaith yn fwy o gerrynt na'r hyn sydd ei angen i ladd unigolyn.
- Gall trydan bontio bylchau.
- Gall coed, llinyn, rhaffau, crogliniau a dŵr ddargludo trydan.
- Ni fydd esgidiau rwber yn eich amddiffyn.
- Nid yw'r rhan fwyaf o linellau pŵer uwchben wedi'u hynysu.
- Peidiwch â thybio mai gwifrau ffôn yw'r llinellau ar bolion pren. Caiff y rhan fwyaf o linellau pŵer uwchben eu cynnal ar bolion pren.
- Dylech gario ffôn symudol gyda chi bob amser wrth weithio ar eich pen eich hun i ffonio'r Gwasanaethau Brys, os bydd angen.

Meddyliwch ymlaen llaw

- Mae Nodyn Cyfarwyddyd GS6 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rhoi cyngor manwl ardderchog a gall helpu i asesu cliriant gweithio diogel mewn perthynas â llinellau uwchben. Argymhellir yn gryf y dylech ddarllen hwn cyn dechrau gweithio ar y safle.
- Dewiswch eich peiriannau a'ch cyfarpar yn ofalus fel na allant ddod i gysylltiad â llinellau pŵer uwchben.
- Cynlluniwch eich gwaith fel ei fod yn osgoi ardaloedd risg uchel, gan ystyried llwybrau mynediad. Defnyddiwch lwybrau mynediad amgen sy'n osgoi pasio o dan linellau pŵer uwchben.
- Gall fod yn anodd gweld llinellau uwchben, yn enwedig yn y nos, neu pan fydd coed yn eu cuddio.
- Byddwch yn ofalus iawn wrth dorri neu docio coed.
- Cynlluniwch yn ofalus wrth godi, datgysylltu a symud cyfarpar fel ysgolion, sgaffaldiau neu dwnelau polythen amaethyddol. Dylech gario gwrthrychau hir yn llorweddol bob amser.
- Cynlluniwch ardaloedd storio yn ofalus. Ni ddylech bentyrru unrhyw beth yn union o dan, neu wrth ymyl, llinellau pŵer uwchben.
- Ar fuarthau fferm a thir ffermio, dylech osgoi adeiladu ar y tir o amgylch llinellau pŵer uwchben. Gallai hyn effeithio ar gliriant diogel.
- Os ydych yn ystyried agor tir ffermio i'r cyhoedd ar gyfer gwerau, ac ati, dylech sicrhau bod eich asesiad risg o ran diogelwch yn cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â llinellau pŵer uwchben.
- Cadwch eich llygaid ar agor am blant ac ymwelwyr ar eich tir.

Adnabod eich llinellau pŵer uwchben

- Dewch o hyd i lwybrau a folteddau gweithredu llinellau pŵer uwchben sy'n rhedeg ar draws y tir neu ger ei ffiniau a nodwch hwy. Bydd y wybodaeth hon ar gael oddi wrth SP Energy Networks ar gais.
- Nodwch y llwybrau a'r folteddau hyn ar rap/cynlluniau eich fferm.
- Wrth gynllunio gwaith, cyfeiriwch at eich map/cynlluniau.

Cysylltu â ni

Ewch i'n gwefan www.spenergynetworks.com

Rydym yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar ddim ar arferion gwaith diogel a'r rhagofalon i'w cymryd wrth weithio ger llinellau pŵer uwchben.

Mesurwch eich peiriannau

- Dylai'r llinellau uwchben fod o leiaf 5.2 metr (17 troedfedd) o'r ddaear. Fodd bynnag gall cyfarpar byw a osodir ar bolion fod mor isel â 4.3 metr (14 troedfedd).
- Ystyriwch y risgiau sy'n gysylltiedig â llinellau pŵer uwchben wrth brynu peiriannau newydd neu ail-law. Holwch beth yw uchder mwyaf a chyrrhaeddiad fertigol y cyfarpar. Ystyriwch faint eich peiriannau eich hun a'r rhai a ddefnyddir gan eich contractwyr ar eich tir/safle.
- Mae'n beryglus codi gwely lori godi o dan linell pŵer uwchben neu yrru o dan y llinell bŵer pan fydd corff y cerbyd wedi'i godi.
- Mae'n beryglus codi neu droi craen neu jib cloddio wrth weithio ger llinellau pŵer uwchben.
- Ond nid dim ond cyfarpar a pheiriannau sy'n beryglus. Gall ffrwd o ddŵr neu slyri ddadwefru trydan a chreu risg uchel o anaf anghuol neu ddifrifol.

Hysbysu a hyfforddi pobl

- Dylech gynnwys rhif ffôn brys SP Energy Networks ar eich map o'r fferm/cynlluniau o'r safle ac yn eich rhestr o gysylltiadau ffôn, ac annog gweithwyr i'w gadw yn eu ffonau symudol.
- Dylech sicrhau bod pob un sy'n gweithio ar eich tir/safle yn ymwybodol o leoliad a folteddau llinellau pŵer uwchben ac arferion gweithio diogel.
- Dylech hyfforddi aelodau o staff, contractwyr a gweithwyr achlysurol i fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â llinellau pŵer uwchben. Dylech sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r rhybuddion 'Perygl Marwolaeth' neu 'Danger of Death' a osodir ar bolion neu beilonau fel arfer. Fodd bynnag, i sicrhau diogelwch, dylid trin pob llinell uwchben a gaiff ei chynnal ar bolion fel llinell bŵer drydanol ac felly dylid ystyried ei bod yn beryglus.
- Dylech sicrhau y caiff aelodau o staff, contractwyr a gweithwyr achlysurol eu hyfforddi i:
 - fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â llinellau pŵer uwchben
 - defnyddio peiriannau a chyfarpar yn ddiogel
 - gwybod beth yw eu rôl a beth i'w wneud mewn argyfwng.